Adroddiad Cyfarfod 14:03:18
Dathlu Gwyl Ddewi

Croesawyd pawb i'r swper Gwyl Ddewi yn y Castell, Caernarfon gan y llywydd Liz.

Cydymdeimlwyd efo Mabel ar golli chwaer a oedd yn byw yn Sir Fon. Anfonwyd cofion at Carwyn John mab Lynwen sydd heb fod yn dda. Hefyd mam Nan a mam Anita.

Llongyfarchiadau i Gwion mab Anita sydd wedi cael swydd pennaeth yma ym Methel. Llongyfarchiadau hefyd i Dewi mab Glenys ar ei ddyweddïad efo Lowenna.

Mae cyfrifon y gangen wedi cael ei archwilio yn allanol gan gwmni cyfrifwyr siartredig ac mae'r cyfan yn gywir. Diolch i Ann am ei gwaith trylwyr.

Bu Richard Owen o Garmel, aelod o'r cylch hud, yn ein diddori. Cawsom ein difyrru a'n syfrdanu efo ei ddawn. Diolch yn fawr iawn iddo.

Enillwyd y raffl gan Delyth , Mair P.,Ann a Nan.

Rhoddwyd par o fenig hud i bob aelod gan Mr Owen, diolch iddo.